

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

**Adroddiad 01-14 i'r Cynulliad ar
Gofrestru a Datgan Buddiannau
Aelodau**

Hydref 2014



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.senedd.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopiau caled gan:

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2082 8506
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Safonau@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

**Adroddiad 01-14 i'r Cynulliad ar
Gofrestru a Datgan Buddiannau
Aelodau**

Hydref 2014



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Sefydlwyd y Pwyllgor Safonau ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor yw cyflawni'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22. Mae'r rhain yn cynnwys: ymchwilio i gwynion a gyfeirir iddo gan y Comisiynydd Safonau; ystyried unrhyw faterion o egwyddor sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau; sefydlu gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i gwynion; a threfnu Cofrestr Buddiannau'r Aelodau a chofnodion cyhoeddus perthnasol eraill sy'n ofynnol o dan y Rheolau Sefydlog.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Mick Antoniw (Cadeirydd)
Llafur Cymru
Pontypridd



Llyr Huws Gruffydd
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



Mark Isherwood
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



Eluned Parrott
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canol De Cymru

Roedd yr Aelod canlynol hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



Kirsty Williams
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Brycheiniog a Sir Faesyfed

Cytunodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar yr adroddiad hwn ar 23 Medi, cyn ethol Eluned Parrott AC ar y Pwyllgor yn lle Kirsty Williams AC ar 30 Medi.

Cynnwys

Argymhellion y Pwyllgor	5
1. Rhagymadrodd	8
2. Y Cefndir	9
3. Yr Ymagwedd	10
Y camau nesaf	10
4. Newidiadau Arfaethedig yn y Rheolau ar Gofrestru a Datgan Buddiannau'r Aelodau	11
Cyflogi Plant Dibynnol	12
Barn y Pwyllgor	13
Aelodau'n derbyn Arian Cyhoeddus	14
Barn y Pwyllgor	14
Contractau gyda'r Cynulliad	15
Barn y Pwyllgor	16
Cyfranddaliadau: Opsiynau ac Ymddiriedolaethau Dall	16
Opsiynau cyfrannau	17
Ymddiriedolaethau Dall	17
Barn y Pwyllgor	17
Aelodaeth o gorff sy'n cael ei ariannu gan y Cynulliad	18
Barn y Pwyllgor	19
Cytundeb i Ddarparu Gwasanaethau	20
Barn y Pwyllgor	20
Pensiynau	21
Barn y Pwyllgor	21
Nawdd ariannol	21
Barn y Pwyllgor	22
Datganiadau llafar	22
Barn y Pwyllgor	24
5. Hysbysu tramgwyddau o dan Reol Sefydlog 2	26

6. Canllawiau ynglŷn â Chofrestru Buddiannau	28
Atodiad A.....	29
Atodiad B	33

Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru wedi'u rhestru isod, yn y drefn y gwelir nhw yn yr adroddiad hwn. Gweler y tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth ategol a'r casgliadau:

Recommendation 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell i'r Pwyllgor Busnes y dylai paragraff 5(ii) o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 gael ei ddiwygio i ddileu'r gofyniad bod rhaid cofrestru cyflogaeth plentyn dibynnol am dâl. (Tudalen 14)

Recommendation 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell i'r Pwyllgor Busnes y dylai'r Rheolau Sefydlog gael eu diwygio i'w gwneud yn ofynnol i'r Aelodau gofrestru eu bod wedi derbyn arian cyhoeddus (y ffynhonnell yn unig), os nad yw hyn wedi'i gofnodi mewn man arall yn y gofrestr. (Tudalen 15)

Recommendation 3. Os derbynnir yr argymhelliad hwn, bydd angen i'r canllawiau gael eu diwygio i egluro'r hyn a ddylai gael ei gofrestru fel arian cyhoeddus. (Tudalen 15)

Recommendation 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell i'r Pwyllgor Busnes y dylai paragraff 5(v) o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 gael ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i Aelodau'r Cynulliad gofrestru unrhyw dâl neu fudd materol arall a geir oddi wrth gwmni neu gorff sydd wedi tendro neu sy'n tendro am gontract gyda'r Cynulliad, os yw'r wybodaeth gan yr Aelod yn unig. (Tudalen 16)

Recommendation 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell i'r Cofrestrydd y dylai'r canllawiau ar gofrestru buddiannau gael eu diweddarau i adlewyrchu y dylid barnu bod opsiwn cydrannau yn werth yr un faint â'r gyfran ei hun. (Tudalen 17)

Recommendation 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell i'r Cofrestrydd y dylai'r canllawiau ar ofynion cofrestru o dan baragraff 9 o'r Atodiad i'r Rheolau Sefydlog gael eu diweddarau â'r gofyniad bod rhaid i Aelodau gofrestru Ymddiriedolaethau Dall. (Tudalen 18)

Recommendation 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell i'r Cofrestrydd y dylai'r diffiniad o Aelodaeth o dan baragraff 5(x) o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 gael ei ddiffinio'n gulach yn y Canllawiau ac y dylai gynnwys:

- unrhyw ddeiliad swydd mewn sefydliad, gan gynnwys, heblaw'r swyddi amlwg fel cadeirydd, rolau fel ymddiriedolwyr a chyfarwyddwyr, noddwyr ac islywyddion;
- aelodaeth o gorff llywodraethu neu fwrdd;
- unrhyw swydd am dâl, boed weithredol ynteu gweinyddol.

(Tudalen 19)

Recommendation 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell i'r Pwyllgor Busnes y dylai paragraff 5(x) o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 gael ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i'r Aelod gofrestru buddiant pan oedd yn gwybod neu pan ddylasai wybod bod arian wedi'i ddarparu gan y Cynulliad.

(Tudalen 20)

Recommendation 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried dileu Rheol Sefydlog 2.12 gan fod unrhyw gytundebau ynglŷn â darparu gwasanaethau yn rhinwedd swydd yr Aelod fel Aelod yn cael eu disgrifio o dan ofynion eraill ynglŷn â chofrestru.

(Tudalen 21)

Recommendation 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r canllawiau gael eu diweddarau er mwyn egluro nad yw incwm pensiwn yn perthyn i gategori tâl a ddylai gael ei gofrestru.

(Tudalen 21)

Recommendation 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Comisiynydd Safonau drafod y cynnig ynglŷn â defnyddio'r mecanwaith o dan Ddeddf Gweinyddu Etholiadau 2006 i ddileu'r gofynion 'cofrestru dwbl' gyda'r cyrff perthnasol ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad maes o law.

(Tudalen 22)

Recommendation 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell i'r Pwyllgor Busnes y dylai Rheol Sefydlog 2.7 gael ei ddiwygio i adlewyrchu gofyniad bod rhaid datgan unrhyw fantais ariannol uniongyrchol "a fyddai'n fwy na'r fantais a allai ddod i ran yr etholwyr yn gyffredinol"

(Tudalen 24)

Recommendation 13. Mae'r Pwyllgor yn argymhell i'r Pwyllgor Busnes y dylai darpariaeth newydd gael ei wneud yn y Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau wneud datganiad llafar ynglŷn ag unrhyw fuddiant perthnasol sydd gan yr Aelod neu aelod o deulu'r Aelod neu y maen nhw'n disgwyl ei gael mewn unrhyw fater sy'n codi yn nhrefodion y Cynulliad. Mae'r Pwyllgor yn argymhell yn gryf y dylai hyn sefyll ar wahân i'r gofynion o dan Reol Sefydlog 2.6 a 2.7 ac na ddylai felly fod yn agored i sancsiynau troseddol.

(Tudalen 24)

Recommendation 14. Os bydd y Pwyllgor Busnes yn cytuno â'r argymhellion hyn, bydd angen i'r canllawiau ar gofrestru buddiannau gael eu diweddarau i ddangos bod y prawf perthnasedd ynglŷn â gwneud datganiadau llafar o dan amgylchiadau o'r fath yn ymwneud ag a fyddai'n rhesymol i bobl eraill gredu y gallai'r buddiant ddylanwadu ar gyfraniad yr Aelod at y ddadl neu'r drafodaeth. Bydd angen diweddarau'r Cod Ymddygiad hefyd er mwyn adlewyrchu'r gofyniad bod rhaid gwneud datganiadau llafar. (Tudalen 24)

Recommendation 15. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Comisiynydd Safonau drafod y cynnig ar gyfer cyflwyno person annibynnol i ystyried tramgwyddau yn erbyn Rheol Sefydlog 2 yn y lle cyntaf gyda'r cyrff perthnasol ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad maes o law. (Tudalen 27)

1. Rhagymadrodd

1. Ar 9 Gorffennaf 2013, cytunodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad (y Pwyllgor) y dylai'r Comisiynydd Safonau (y Comisiynydd) ymgymryd â darn o waith ar y Rheolau Sefydlog, y Cod Ymddygiad a'r canllawiau perthynol sy'n ymdrin â buddiannau cofrestradwy a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor yn y maes hwn.¹
2. Ymgynghorodd y Comisiynydd ag Aelodau'r Cynulliad, y Llywydd, Staff Comisiwn y Cynulliad a'r Comisiwn Etholiadol a llunio adroddiad yn cynnwys nifer o newidiadau arfaethedig. Ystyriwyd yr adroddiad hwnnw gan y Pwyllgor ar 1 Gorffennaf 2014. Yn ychwanegol at gynigion y Comisiynydd ynglŷn â newidiadau mwy sylweddol i'r gofrestr, mae staff Comisiwn y Cynulliad wedi cynnig nifer o newidiadau drafftio yn y canllawiau ar gofrestru a datgan buddiannau gan geisio'u gwneud yn gliriach i'r Aelodau.
3. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys canfyddiadau ac argymhellion dilynol y Pwyllgor ar newidiadau posibl i'r Gofrestr o Fuddiannau'r Aelodau.

¹ Pwyllgor Safonau Ymddygiad, 9 Gorffennaf 2013

2. Y Cefndir

4. Mae adran 36 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i Reolau Sefydlog y Cynulliad gynnwys darpariaeth ar gyfer cofrestr o fuddiannau'r Aelodau ac i'r gofrestr honno gael ei chyhoeddi a bod ar gael i'r cyhoedd. Nodir y gofynion penodol ar gyfer cofrestru buddiannau'r Aelodau yn Rheolau Sefydlog 2, 3, 4 a 5 y Cynulliad. Mae gofynion y Rheolau Sefydlog wedi'u hategu gan y 'Canllawiau i Aelodau'r Cynulliad ar Gofrestru, Datgan a Chofnodi Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill Aelodau' (y Canllawiau), sydd wedi'u cymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn. Gall methiant gan Aelod Cynulliad i gofrestru buddiant Aelod o dan Reol Sefydlog 2 yn y modd cywir fod yn drosedd o dan adran 36(7) o'r Ddeddf.

5. Yn unol â Rheol Sefydlog 22.2, rhaid i'r Pwyllgor Safonau "oruchwylio'r trefniadau ar gyfer llunio Cofrestr Buddiannau'r Aelodau... a ffurf a chynnwys y Gofrestr a'r Cofnodion, a'r trefniadau ar gyfer cadw'r Gofrestr a'r Cofnodion a sicrhau eu bod yn hygyrch". O dan y cylch gorchwyl hwn, y Pwyllgor sy'n gyfrifol am baratoi'r Canllawiau a'u cynnal.

6. Yn 2001, comisiynodd y Pwyllgor Safonau adolygiad cyffredinol o gyfundrefn safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gynhaliwyd gan yr Athro Diana Woodhouse o Brifysgol Brookes Rhydychen.² Yr adolygiad hwn a'i argymhellion a osododd y sylfaen ar gyfer y Rheolau cyfredol ar Gofrestru Buddiannau a'u Datgan, yn ogystal â'r Cod Ymddygiad a'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad. Does dim diweddariad o bwys wedi bod yn y rheolau ar gofrestru ers i Reol Sefydlog 5 gael ei chytuno yn 2006.

7. Cofrestrydd dynodedig Buddiannau'r Aelodau sy'n gyfrifol am roi cyngor i'r Aelodau ynghylch dehongli'r Rheolau. Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a'r Pwyllgorau sy'n llenwi'r rôl hon ar hyn o bryd ac mae'r cyngor yn cael ei roi o ddydd i ddydd ar ran y Cofrestrydd gan y Swyddfa Gyflwyno.

² Mae'r adroddiad ar adolygiad Woodhouse ar gael ar wefan y Cynulliad: www.assemblywales.org/cy/diana_woodhouse_report_final_version_welsh__2_.pdf

3. Yr Ymagwedd

8. Anfonodd y Comisiynydd llythyr ymgynghori ym mis Ionawr 2014 i holl Aelodau'r Cynulliad, y Llywydd, Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Comisiwn Etholiadol. Ceir copi o'r llythyr yn Atodiad A.

9. Yn ychwanegol at wahodd ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad, cynhaliodd y Comisiynydd nifer o sesiynau galw heibio a chyfarfodydd unigol ag Aelodau.

10. Cafodd yr wybodaeth a gasglwyd drwy'r ymgynghoriad ei defnyddio i fwydo adroddiad y Comisiynydd ym mis Gorffennaf 2014. Ceir copi o'r adroddiad yn Atodiad B.

11. Cyfarfu'r Pwyllgor ar 1 Gorffennaf 2014 i drafod cynigion y Comisiynydd, a chytunodd ar nifer o argymhellion i newid y gweithdrefnau ar gyfer cofrestru buddiannau, y manylir arnyn nhw yn yr adroddiad hwn. Mae rhai o'r argymhellion yn cynnig newidiadau yn y Rheolau Sefydlog a mater i'w ystyried gan y Pwyllgor Busnes yw'r rhain felly.

Y camau nesaf

12. Mae'r Pwyllgor o'r farn mai'r ffordd orau i sicrhau nifer o'i gynigion fyddai newid y Rheolau Sefydlog. Bydd angen i'r argymhellion hyn gael eu hystyried gan y Pwyllgor Busnes, a fydd wedyn yn cyflwyno unrhyw welliannau arfaethedig i gael eu cytuno gan y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn. Bydd angen i newidiadau perthynol yn y Canllawiau ac yng Nghod Ymddygiad Aelodau'r Cynulliad gael eu cyflwyno hefyd gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i gael eu cytuno gan y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn.

13. Pan fydd y Cyfarfod Llawn wedi cytuno â'r newidiadau, bydd y Comisiynydd Safonau a'r Cofrestrydd yn cydweithio â Grwpiau'r Pleidiau i sicrhau bod y newidiadau a'r gofynion newydd i'r Aelodau yn cael eu hesbonio'n glir.

4. Newidiadau Arfaethedig yn y Rheolau ar Gofrestru a Datgan Buddiannau'r Aelodau

14. Mae'r gofrestr o fuddiannau ariannol neu fuddiannau eraill yn rhestru'r categorïau cofrestru a ganlyn:

- Categori 1: Swydd(i) Cyfarwyddwr
- Categori 2: Tâl, Cyflogaeth, Swyddi, Galwedigaeth ac ati
- Categori 3: Enwau Cleientiaid
- Categori 4: Rhoddion, lletygarwch, buddion materol neu fantais faterol
- Categori 5: Tâl neu fudd materol arall
- Categori 6: Nawdd ariannol
- Categori 7: Ymweliadau Tramor
- Categori 8: Tir ac Eiddo
- Categori 9: Cyfranddaliadau
- Categori 10: Cyrff cyhoeddus

15. Mae manylion llawn yr hyn sy'n ofynnol yn y categorïau hyn wedi'u nodi yn yr Atodiad i Reol Sefydlog 2 ac yn y canllawiau sydd wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r Gofrestr.

16. Ar y cyfan, gwelodd ymgynghoriad y Comisiynydd gonsensws eang o blaid:

- "some updating of the rules to reflect the current legal and constitutional position of the National Assembly (as opposed to that which pertained in 2006)
- some specific changes, ... where experience dictates they are needed or will better suit current times
- clear and comprehensive guidance."³

17. Yn ystod ymgynghoriad y Comisiynydd, chafodd dim pryderon arwyddocaol eu codi ynghylch y pum categori a ganlyn:

- Categori 1: Swydd(i) Cyfarwyddwr
- Categori 3: Enwau Cleientiaid

³ Papur y Comisiynydd Safonau, Atodiad B i'r adroddiad hwn

- Categori 4: Rhoddion, lletygarwch, buddion materol neu fantais faterol
- Categori 7: Ymweliadau tramor
- Categori 8: Tir ac Eiddo

18. Gan hynny, nid yw'r Pwyllgor yn argymhell unrhyw newid o sylwedd yn y categorïau hyn.

19. Ystyriodd y Pwyllgor gynigion y Comisiynydd ar gyfer gweddill y categorïau cofrestru a materion eraill a ddaeth i'r amlwg fel rhan o'r broses ymgynghori. Mae canfyddiadau'r Pwyllgor wedi'u nodi isod.

Cyflogi Plant Dibynnol

20. Mae paragraff 5(ii) o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 yn nodi'r buddiant cofrestradwy a ganlyn:

(ii) cyflogaeth, swydd, masnach, proffesiwn neu alwedigaeth (ac eithrio aelodaeth o'r Cynulliad) y mae'r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod yn cael tâl amdanynt, neu y mae gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, unrhyw fuddiant ariannol ynddynt;⁴

21. Cynigiodd y Comisiynydd y dylai'r Pwyllgor ystyried a ddylid diwygio'r Rheolau Sefydlog er mwyn dileu cyflogi plentyn dibynnol am dâl fel buddiant cofrestradwy. Cynigiodd hefyd y dylid ystyried a ddylai'r Rheolau Sefydlog ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau ariannol sydd gan "aelod o deulu" (fel y'i diffinnir yn Rheol Sefydlog 3) o dan yr amgylchiadau a ragwelir yn Rheolau Sefydlog 2.6 a 2.7, a allai gynnwys cyflogi unrhyw blentyn dibynnol am dâl.

22. Dadleuai'r Comisiynydd yn ei bapur fod y gofyniad o dan paragraff 5(ii) o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 yn arbennig o fusneslyd, oherwydd:

"...the intrusion into personal and private life of a child by making public his or her position and/or income is one which

⁴ Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru

should be sparingly used and only when absolutely necessary and in the public interest.”⁵

23. Ar ben hynny, dadleuai y gall fod llawer o amgylchiadau lle gallai buddiant “teuluol” (yn ehangach na phlant dibynnol yn unig) mewn pwnc trafod effeithio ar ymateb Aelod i’r ddatl honno neu unrhyw bleidlais ar y mater, neu gael ei weld fe pe bai’n effeithio arnyn nhw.

24. O gofio’r pwyntiau hyn, ac o gofio mai’r Cynulliad Cenedlaethol yw’r unig ddeddfwrfa yn y Deyrnas Unedig sy’n ei gwneud yn ofynnol i gyflogaeth plant Aelodau gael ei chofrestru, awgrymodd y Comisiynydd mai un ffordd ymlaen fyddai dileu’r gofyniad bod rhaid cofrestru cyflogaeth plentyn dibynnol am dâl a chreu gofyniad bod rhaid i’r Aelodau ddatgan, naill ai yn y cyfarfod llawn neu mewn pwyllgor, fuddiant ariannol neu fuddiant personol mewn unrhyw eitem o fusnes y mae gan Aelod neu aelod o deulu (fel y’i diffinnir yn Rheol Sefydlog 3.2) fuddiant perthnasol ynddi.

25. Amlinellodd y Comisiynydd na fyddai’r categori newydd hwn o ddatganiadau’n arwain at sancsiwn troseddol pe bai’n cael ei dorri ond y byddai peidio â datgan buddiannau priodol (sef y rhai sy’n dod o dan Reol Sefydlog 2) yn dal yn sancsiwn troseddol o dan adran 36 o’r Ddeddf.

26. Mae’r adroddiad hwn yn ystyried cwestiwn datganiadau llafar ehangach ym mharagraffau 66-73.

Barn y Pwyllgor

27. Ystyriodd y Pwyllgor y dadleuon a gynigiwyd gan y Comisiynydd, gan gytuno y dylai’r angen i gofrestru cyflogaeth plentyn dibynnol am dâl fel buddiant cofrestradwy gael ei ddileu, ac y dylid ychwanegu gofyniad newydd ar gyfer datganiad llafar ehangach ynghylch ‘buddiannau teuluol’ (gweler yr adran ar ddatganiadau llafar). Mae’r Pwyllgor yn credu bod hyn yn taro’r cydbwysedd cywir rhwng yr hyn sydd er budd y cyhoedd i’w wybod a gwarchod rhag busnesa’n ddiangen mewn bywydau preifat.

28. Teimlai’r Pwyllgor fod awgrym y Comisiynydd yn egluro’r hyn a ddylai gael ei gofrestru ac yn dileu’r hyn y bernir ei fod yn ofyniad diangen o feichus.

⁵ Papur y Comisiynydd Safonau

Mae'r Pwyllgor yn argymhell i'r Pwyllgor Busnes y dylai paragraff 5(ii) o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 gael ei ddiwygio i ddileu'r gofyniad bod rhaid cofrestru cyflogaeth plentyn dibynnol am dâl.

Aelodau'n derbyn Arian Cyhoeddus

29. Mae paragraff 5(ii) o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 yn nodi'r buddiant cofrestradwy a ganlyn:

(ii) cyflogaeth, swydd, masnach, proffesiwn neu alwedigaeth (ac eithrio aelodaeth o'r Cynulliad) y mae'r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod yn cael tâl amdanynt, neu y mae gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, unrhyw fuddiant ariannol ynddynt;⁶

30. Cafodd y Comisiynydd sylwadau ynghylch a ddylid cael categori cofrestru ar wahân ar gyfer 'derbyn arian cyhoeddus'.

31. Barn y mwyafrif oedd bod cofrestru ar wahân yn creu dyblygu diangen, gan fod yr wybodaeth hon yn cael ei disgrifio i raddau helaeth mewn categorïau eraill, sef y gofyniad ynglŷn â thâl.

32. Cytunodd y Comisiynydd â'r farn a gynigiwyd y dylid osgoi dyblygu lle bynnag y bo modd, ac felly nad oedd angen categori ar wahân o reidrwydd. Er hynny, roedd y Comisiynydd yn credu ei bod yn bwysig, lle roedd taliadau'n cael eu cofrestru unwaith yn unig, fod unrhyw elfen o arian cyhoeddus yn cael ei dynodi'n glir ynddo.

Barn y Pwyllgor

33. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod cofrestru bod arian cyhoeddus wedi'i dderbyn yn faes pwysig i'w egluro. Roedd y Pwyllgor yn cytuno â barn y Comisiynydd bod categori ar wahân ar gyfer arian cyhoeddus yn debyg o arwain at ddyblygu.

34. Roedd y Pwyllgor yn cytuno y dylai derbyn arian cyhoeddus gael ei gofrestru, ond doedd y Pwyllgor ddim am iddo fod yn categori ar ei ben ei hun, er mwyn ceisio osgoi dyblygu. Cytunwyd bod cofrestru ffynhonnell yr arian cyhoeddus yn ddigon, yn hytrach nag unrhyw wybodaeth arall megis y swm a gafwyd.

⁶ Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru

35. Eglurodd y Pwyllgor y byddai'r gofyniad hwn yn anelu at ddisgrifio arian cyhoeddus megis dyraniadau grant ac na fyddai'n cynnwys meysydd arian cyhoeddus llai pendant megis cyflog neu incwm o swydd gyhoeddus, megis Athro/Athrawes neu Weithiwr Proffesiynol Iechyd, sydd eisoes yn cael eu disgrifio yn y gofyniad ym mharagraff 5(ii) o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2.

36. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r newid hwn yn golygu bod angen canllawiau ar ddiffinio arian cyhoeddus, a mesur o synnwyr cyffredin o ran yr hyn a ddylai gael ei gofrestru.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell i'r Pwyllgor Busnes y dylai'r Rheolau Sefydlog gael eu diwygio i'w gwneud yn ofynnol i'r Aelodau gofrestru eu bod wedi derbyn arian cyhoeddus (y ffynhonnell yn unig), os nad yw hyn wedi'i gofnodi mewn man arall yn y gofrestr.

Os derbynnir yr argymhelliad hwn, bydd angen i'r canllawiau gael eu diwygio i egluro'r hyn a ddylai gael ei gofrestru fel arian cyhoeddus.

Contractau gyda'r Cynulliad

37. Mae paragraff 5(v) o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 yn nodi'r buddiant cofrestradwy a ganlyn:

(v) unrhyw dâl neu fudd materol arall y mae'r Aelod neu, hyd y gwyr yr Aelod, y mae partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod yn ei gael oddi wrth unrhyw gwmni preifat neu gyhoeddus neu unrhyw gorff arall sydd wedi tendro, neu sy'n tendro, am gontract gyda'r Cynulliad, neu sy'n meddu ar gontract o'r fath;⁷

38. Cafodd nifer o bryderon eu codi gyda'r Comisiynydd am ei bod yn ofynnol i'r Aelodau gofrestru unrhyw dâl neu fudd materol arall a geir oddi wrth unrhyw gwmni neu gorff sydd wedi tendro neu sy'n tendro am gontract gyda'r Cynulliad. Awgrymwyd y gellid barnu bod y gofyniad yn un afresymegol ac annheg, gan y gallai'r wybodaeth fod y tu allan i wybodaeth yr Aelod, ond bod y gofyniad i gofrestru yn absoliwt.

⁷ Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru

39. Cynigiodd y Comisiynydd y dylai'r Pwyllgor ystyried a ddylai'r Rheol Sefydlog gael ei ddiwygio i beri mai dim ond pan fo'r wybodaeth yn bodoli y dylai fod yn ofynnol i'r Aelod gofrestru'r buddiant.

Barn y Pwyllgor

40. Roedd y Pwyllgor yn cytuno bod y gofyniad fel y mae yn annheg ac yn afresymegol gan nad oedd bob amser yn bosibl i'r Aelodau wybod a yw cwmnïau y maen nhw'n cael tâl ganddyn nhw yn tendro am gontractau gyda'r Cynulliad neu a oes ganddyn nhw gontractau gyda'r Cynulliad. Cytunodd y Pwyllgor y dylai paragraff 5(v) o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 gael ei ddiwygio felly, i adlewyrchu'r angen i gofrestru os yw'r wybodaeth yn bodoli yn unig.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell i'r Pwyllgor Busnes y dylai paragraff 5(v) o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 gael ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i Aelodau'r Cynulliad gofrestru unrhyw dâl neu fudd materol arall a geir oddi wrth gwmni neu gorff sydd wedi tendro neu sy'n tendro am gontract gyda'r Cynulliad, os yw'r wybodaeth gan yr Aelod yn unig.

Cyfranddaliadau: Opsiynau ac Ymddiriedolaethau Dall

41. Mae paragraff 5(ix) o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 yn nodi'r buddiant cofrestradwy a ganlyn:

(ix) enwau cwmnïau neu gyrff eraill y mae gan yr Aelod, naill ai ar ei ben ei hun neu gyda phartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, neu ar eu rhan hwy, fuddiant llesiannol ynddynt, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod fuddiant llesiannol ynddynt, mewn cyfranddaliadau y mae eu gwerth ar y farchnad yn fwy nag un y cant o'r cyfalaf cyfranddaliadol a ddyroddwyd, neu'n llai nag un y cant ond yn fwy na swm a ragnodwyd mewn unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad;⁸

42. Er nad oedd pryderon wedi bod o ran y gofynion bod rhaid cofrestru cyfranddaliadau fel y maen nhw, tanlinellodd y Comisiynydd yn ei adroddiad fod pryderon wedi bod ynglŷn â chofrestru opsiynau cyfrannau ac Ymddiriedolaethau Dall.

⁸ Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Opsiynau cyfrannau

43. Cafwyd galwad am eglurder o ran cofrestru opsiynau cyfrannau. Gall gwerth opsiwn cyfrannau amrywio yn ôl y telerau ynglŷn â rhoi'r opsiwn a chyflwr y farchnad yn y cyfrannau. O gofio bod sancsiwn troseddol yn gymwys yn hyn o beth, dadleuai'r Comisiynydd fod angen eglurder yn y maes yma. Awgrymodd y dylai opsiynau cyfrannau gael eu cynnwys ac y dylai gwerth opsiwn, at ddibenion cofrestru, fod yn hafal i werth y gyfran ar yr adeg briodol.

Ymddiriedolaethau Dall

44. Nid yw'r rheolau cyfredol yn sôn am Ymddiriedolaethau Dall. Er na fyddai'n bosibl i fanylion y cyfranddaliadau unigol yn yr ymddiriedolaeth gael eu datgan, dadleuai'r Comisiynydd ei bod er budd y cyhoedd cael gwybod am fodolaeth unrhyw ymddiriedolaethau dall sydd gan Aelodau. Dadleuai y byddai'r cyhoedd yn ategu teimladau adroddiad Pwyllgor Neill ym 1998 i'r Senedd fod ymddiriedolaethau dall yn anghyson ag egwyddor bod yn agored ac egwyddor atebolrwydd.⁹

Barn y Pwyllgor

45. Roedd y Pwyllgor yn cytuno bod angen mwy o eglurder o ran gwerth opsiwn cyfrannau a bod y dull arfaethedig, sef cymryd gwerth y cyfrannau ar y farchnad yn ffordd ymlaen synhwyrol a phriodol.

46. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod yna ddiffyg ymddiriedaeth mewn Ymddiriedolaethau Dall. Cytunwyd ei bod er budd y cyhoedd i Ymddiriedolaethau Dall gael eu cofrestru, a'i bod yn briodol rhoi'r eglurder yma dwy gyfrwng canllawiau yn hytrach na thrwy ddiwygio'r Rheolau Sefydlog.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell i'r Cofrestrydd y dylai'r canllawiau ar gofrestru buddiannau gael eu diweddarau i adlewyrchu y dylid barnu bod opsiwn cydrannau yn werth yr un faint â'r gyfran ei hun.

⁹ Fifth Report of the Committee on Standards in Public Life: The Funding of **Political Parties** in the United Kingdom

Mae'r Pwyllgor yn argymhell i'r Cofrestrydd y dylai'r canllawiau ar ofynion cofrestru o dan baragraff 9 o'r Atodiad i'r Rheolau Sefydlog gael eu diweddarau â'r gofyniad bod rhaid i Aelodau gofrestru Ymddiriedolaethau Dall.

Aelodaeth o gorff sy'n cael ei ariannu gan y Cynulliad

47. Mae paragraff 5(x) o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 yn nodi'r buddiant cofrestradwy a ganlyn:

(x) aelodaeth neu gadeiryddiaeth gyda thâl neu'n ddi-dâl a ddelir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, ar unrhyw gorff a ariennir yn llwyr neu'n rhannol â chyllid a ddarparwyd gan y Cynulliad.¹⁰

48. Nododd y Comisiynydd fod angen mwy o eglurder ynghylch diffinio aelodaeth. Oherwydd y sancsiynau troseddol posibl yn sgil peidio â chofrestru aelodaeth, mae rhai Aelodau wedi cofrestru aelodaethau "torfol" megis Undeb Rygbi Cymru neu'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Serch hynny, dadleuai'r Comisiynydd nad oes angen y math yma o gofrestru o ran sicrhau eglurder ac y dylai cofrestru gael ei gymhwyso'n fwy priodol at sefyllfaoedd lle y gallai Aelod ddefnyddio'i safle mewn sefydliad i hybu achos penodol.

49. Awgrymodd y Comisiynydd y dylai aelodaeth gael ei diffinio'n dynnach er mwyn cynnwys:

- unrhyw ddeiliad swydd mewn sefydliad, gan gynnwys, heblaw'r swyddi amlwg fel cadeirydd, rolau fel ymddiriedolwyr a chyfarwyddwyr, noddwyr ac islywyddion;
- aelodaeth o gorff llywodraethu neu fwrdd;
- unrhyw swydd am dâl, boed weithredol ynteu gweinyddol.¹¹

50. Codwyd rhai pryderon ynghylch cofrestru Islywyddion/Noddwyr, gan fod y rhain yn aml yn rhoddwyr i'r sefydliad yn hytrach nag yn ddeiliaid swyddi. Serch hynny, dadleuai'r Comisiynydd y gallai'r sefydliadau, drwy roi teitl o'r fath, ddefnyddio enw Aelod i geisio arfer mwy o ddylanwad neu bwysau, ac felly y dylai'r swyddi hyn fod yn gofrestradwy hefyd.

¹⁰ Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru

¹¹ Papur y Comisiynydd Safonau

51. Mae paragraff 5(x) o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau wybod a yw'r sefydliad yn cael arian cyhoeddus gan y Cynulliad. Yn ei bapur, roedd y Comisiynydd yn amau a ddylai hyn fod yn rhywbeth i'w gofrestru fel gofyniad "absoliwt" ni waeth beth fyddai gwybodaeth yr Aelod. Er ei bod yn rhesymol cael cosbi Aelod y mae ganddo wybodaeth o'r fath neu y dylai fod ganddo wybodaeth o'r fath, mae'n awgrymu bod yna achosion lle na fuasai'r Aelod yn gwybod, neu lle na ellid disgwyl iddo wybod, ac o dan yr amgylchiadau hynny mae'n ymddangos ei bod yn annheg y gallai Aelod wynebu sancsiwn troseddol.

Barn y Pwyllgor

52. Roedd y Pwyllgor yn cytuno bod angen egluro'r diffiniad o aelodaeth o dan baragraff 5(x) o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2, gan nodi na ddylai hynny greu effaith ar y diffiniad o aelodaeth o dan reol Sefydlog 5 (Cofnodi Aelodaeth o Gymdeithasau).¹²

53. Er nad ydyn nhw'n aml yn safleoedd sy'n gyfystyr â dal swydd, er lles tryloywder cytunodd y Pwyllgor y dylai rolau megis islywyddion a noddwyr gael eu cofrestru, gan y gallai enw Aelod gael ei ddefnyddio o ganlyniad i'r teitlau hyn.

54. Ystyriodd y Pwyllgor y cwestiwn a ddylai Aelod bob amser wybod a oedd sefydliad yr oedd yn aelod ohono yn cael arian cyhoeddus. Cytunodd y Pwyllgor fod yna enghreifftiau lle y gallai Aelod fod yn anymwybodol o arian sefydliad a bod angen adlewyrchu hyn yn y Rheolau Sefydlog. Serch hynny, teimlai'r Aelodau ei bod yn bwysig sicrhau bod enghreifftiau lle y dylasai Aelod wybod am arian yn dal yn fuddiant i'w gofrestru. O dan rai amgylchiadau, bernid y dylai'r Aelod fod o dan gyfrifoldeb i ymholi a oedd arian yn cael ei roi gan y Cynulliad, at ddibenion cofrestru, yn hytrach na dibynnu ar amddiffyniad diffyg gwybodaeth - er enghraifft, fel Cadeirydd sefydliad fe ddylech wybod o ble mae'r arian yn dod.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell i'r Cofrestrydd y dylai'r diffiniad o Aelodaeth o dan baragraff 5(x) o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 gael ei ddiffinio'n gulach yn y Canllawiau ac y dylai gynnwys:

¹² Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru

- unrhyw ddeiliad swydd mewn sefydliad, gan gynnwys, heblaw'r swyddi amlwg fel cadeirydd, rolau fel ymddiriedolwyr a chyfarwyddwyr, noddwyr ac islywyddion;
- aelodaeth o gorff llywodraethu neu fwrdd;
- unrhyw swydd am dâl, boed weithredol ynteu gweinyddol.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell i'r Pwyllgor Busnes y dylai paragraff 5(x) o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 gael ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i'r Aelod gofrestru buddiant pan oedd yn gwybod neu pan ddylasai wybod bod arian wedi'i ddarparu gan y Cynulliad.

Cytundeb i Ddarparu Gwasanaethau

55. Mae Rheol Sefydlog 2.12 yn nodi'r buddiant cofrestradwy a ganlyn:

2.12 Rhaid i unrhyw Aelod sydd wedi gwneud cytundeb, neu sy'n bwriadu gwneud cytundeb, sy'n cynnwys darparu gwasanaethau yn rhinwedd ei swydd fel Aelod sicrhau bod y cytundeb:

- (i) yn cydymffurfio â Rheol Sefydlog 2.8;
- (ii) yn ysgrifenedig;
- (iii) yn nodi natur y gwasanaethau sydd i'w darparu; a
- (iv) yn pennu'r tâl neu'r budd sydd i'w dderbyn.¹³

56. Hyd yn hyn, does dim byd wedi'i gofrestru o dan y Rheol Sefydlog yma. Ar ben hynny, does dim cwestiynau wedi'u codi ynghylch sut mae'r Rheol Sefydlog yn gweithredu. Awgrymodd cyflwyniadau i'r Comisiynydd ynglŷn â hyn mai Rheol Sefydlog ddiangen yw hon, gan y byddai unrhyw gytundeb o'r fath yn gofrestradwy o dan benawdau eraill. Cynigiodd y Comisiynydd y dylai'r Rheol Sefydlog gael ei dileu.

Barn y Pwyllgor

57. Ystyriodd y Pwyllgor yr angen am y Rheol Sefydlog yma, a chytuno y byddai unrhyw gytundeb o'r fath yn dod o dan y gofynion cofrestru yn Rheol Sefydlog 2 Atodiad 5(i), (ii), (iv), (v) a (vi), ac felly y dylai'r Rheol Sefydlog gael ei dileu.

¹³ Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried dileu Rheol Sefydlog 2.12 gan fod unrhyw gytundebau ynglŷn â darparu gwasanaethau yn rhinwedd swydd yr Aelod fel Aelod yn cael eu disgrifio o dan ofynion eraill ynglŷn â chofrestru.

Pensiynau

58. Cafodd y Comisiynydd nifer o sylwadau ynghylch a ddylai incwm pensiwn gael ei gofrestru o dan gategori tâl. Awgrymodd y rhan fwyaf o'r safbwyntiau a gyflwynwyd i'r Comisiynydd nad yw pensiwn diymwad yn effeithio ar annibyniaeth Aelod, ac felly na ddylai incwm pensiwn gael ei gofrestru. Dyma'r sefyllfa yn holl ddeddfwrfeydd eraill y Deyrnas Unedig.

59. Dadleuai'r Comisiynydd na ddylai incwm pensiwn gael ei gofrestru, gan fod pensiwn yn cael ei dalu heb ystyried barn na phleidleisiau'r Aelod, ac felly nad oes modd barnu na chredu ei fod yn ffactor sy'n dylanwadu ar ymddygiad Aelod. Ar ben hynny, awgrymodd y byddai'r datganiad llafar newydd arfaethedig (paragraffau 66-73) yn galluogi Aelodau i ddatgan incwm pensiwn pe bai ganddyn nhw bryderon o ran tryloywder.

Barn y Pwyllgor

60. Roedd y Pwyllgor yn cytuno na ddylai incwm pensiwn fod yn gofrestradwy. Teimlai'r Aelodau fod yna ofyniad i gofrestru unrhyw berthynas â sefydliad a allai arwain at ddylanwadu ar Aelod, megis cyfranddaliad, a oedd er budd y cyhoedd, ac nad oedd llawer o werth i'w gael o ddatgan incwm pensiwn. Teimlai'r Pwyllgor y dylai'r canllawiau gael eu diweddarau i egluro nad oedd angen i incwm pensiwn gael ei gofrestru.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r canllawiau gael eu diweddarau er mwyn egluro nad yw incwm pensiwn yn perthyn i gategori tâl a ddylai gael ei gofrestru.

Nawdd ariannol

61. Mae rheoliadau'r Comisiwn Etholiadol¹⁴ ar gofrestru rhoddion a nawdd yn arwain at ddyblygu gyda gofynion o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru a'r Rheolau Sefydlog. Cynigiwyd y dylai Cymru ddilyn yr un llwybr â San Steffan a'r Alban a dileu'r gofyniad 'cofrestru dwbl'.

¹⁴ www.electoralcommission.org.uk/find-information-by-subject/political-parties-campaigning-and-donations

62. Mae yna fecanwaith o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda (PPERA) 2000 i ddileu'r rheolaethau ynglŷn â rhoddion a benthyciadau ar Aelodau o ddeddfwrfa drwy gysoni gofynion y ddeddfwrfa ynglŷn ag adroddiadau â PPERA. Mae hyn yn galluogi'r Aelodau i gyflawni'r holl ofynion ynglŷn â rhoi gwybod am roddion (ac eithrio fel ymgeiswyr) drwy roi gwybod i'r ddeddfwrfa berthnasol. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn cadw rôl mewn perthynas â rhoddion nad ydyn nhw'n cael eu caniatáu.

63. Byddai hyn yn gofyn am ddiwygio rheolau'r Cynulliad i ymdrin â'r gofynion ynglŷn ag adroddiadau yn PPERA, ac is-ddeddfwriaeth i ddileu rheolaethau PPERA. Felly, fyddai'r newid yma ddim yn digwydd mor ddiymdroi â newidiadau eraill sy'n cael eu cynnig yn yr adroddiad yma.

64. Cafodd y Comisiynydd nifer o gyflwyniadau hefyd a oedd yn galw am fwy o eglurder o ran yr hyn a ddylai gael ei gofrestru, ac mae'n awgrymu y gellid mynd i'r afael â hyn fel rhan o'r broses o gytuno ar un weithdrefn gofrestru.

Barn y Pwyllgor

65. Ystyriodd y Pwyllgor gynnig y Comisiynydd a'r Comisiwn Etholiadol y dylai'r gofyniad 'cofrestru dwbl' gael ei ddileu, a chytunodd y dylid ystyried hyn ymhellach gyda Swyddfa Cymru, y Comisiwn Etholiadol a Chomisiwn y Cynulliad.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Comisiynydd Safonau drafod y cynnig ynglŷn â defnyddio'r mecanwaith o dan Ddeddf Gweinyddu Etholiadau 2006 i ddileu'r gofynion 'cofrestru dwbl' gyda'r cyrff perthnasol ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad maes o law.

Datganiadau llafar

66. Mae Rheolau Sefydlog 2.6 a 2.7 yn nodi'r gofynion cyfredol ynghylch datganiadau llafar cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y Cynulliad:

2.6 Yn yr amgylchiadau a bennir yn Rheol Sefydlog 2, cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion yn y Cynulliad, rhaid i Aelod ddatgan ar lafar unrhyw fuddiant ariannol sydd ganddo, neu y gall fod yn disgwyl ei gael, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, unrhyw fuddiant ariannol sydd gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol sydd gan yr Aelod, neu y gallant fod

yn disgwyl ei gael, mewn unrhyw fater sy'n codi yn y trafodion hynny.

2.7 Rhaid i ddatganiad llafar o dan Reol Sefydlog 2.6 gael ei wneud mewn perthynas ag unrhyw fuddiant a bennir ym mharagraff 5 o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 os gallai penderfyniad penodol yn y trafodion hynny arwain at fantais ariannol uniongyrchol i'r Aelod, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, i bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol sydd gan yr Aelod, a fyddai'n fwy na'r fantais a allai ddod i ran y personau y byddai'r penderfyniad yn effeithio arnynt yn gyffredinol.¹⁵

67. Cafodd y Comisiynydd nifer o ymatebion ynglŷn â hyn fel rhan o'i ymgynghoriad a chynigiodd ddau newid i'r gofynion ynglŷn â datganiadau llafar.

68. Yn gyntaf, cynigiodd y Comisiynydd y dylid ystyried a oes angen cyfundrefn ddatgan ehangach. Mae'r Comisiynydd yn cyfeirio at enghraifft Cynulliad Gogledd Iwerddon lle mae'n rhaid i'r aelodau ddatgan unrhyw fuddiant perthnasol, ariannol neu fel arall, neu fantais uniongyrchol neu anuniongyrchol beth bynnag fo'u natur, mewn dadl neu mewn trafodon eraill. Y prawf perthnasedd ynglŷn â buddiant sy'n cael ei nodi yn eu canllawiau nhw yw "might reasonably be thought by others to influence the speech or representation". Mae'r Comisiynydd yn dadlau y byddai er budd y cyhoedd pe bai datganiadau ehangach yn cael eu cychwyn, gan osod y cyfrifoldeb ar yr Aelodau i wneud datganiad pan fydd uniondeb yn gofyn am hynny.

69. Awgrymodd y Comisiynydd na ddylai gofyniad o'r fath i wneud datganiadau ar lafar fod yn agored i sancsiynau troseddol, gan y byddai mor eang nes na fyddai bob amser yn amlwg i'r Aelodau nac yn bosibl iddyn nhw ei adnabod. Er hynny, tanlinellodd y Comisiynydd y byddai'r rhain yn rhan o'r Cod Ymddygiad i Aelodau'r Cynulliad, ac felly yn dod o dan sancsiynau'r Cod pe bai'n briodol.

70. Yn ail, cododd y Comisiynydd bryderon a yw'r geiriad ar ddiwedd Rheol Sefydlog 2.7, *a fyddai'n fwy na'r fantais a allai ddod i ran y personau y byddai'r penderfyniad yn effeithio arnynt yn gyffredinol* yn ddigon eglur a sicr. Dadleuai'r Comisiynydd y gallai hyn fod yn rhy gyfyngedig, gan amddifadu'r cyhoedd – yn anfwriadol felly – o wybodaeth am fuddiannau a ddylai gael eu datgelu. Mae'n awgrymu

¹⁵ Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru

addasu'r geiriad i ddarllen "*a fyddai'n fwy na'r fantais a allai ddod i ran yr etholwyr yn gyffredinol*", gan y byddai hynny wedyn yn ymdrin ag enghreifftiau lle mae'r Aelod yn rhan o grŵp lleiafrifol a fyddai ar ei ennill yn sgil darn penodol o ddeddfwriaeth e.e. landlord yn trafod ac yn pleidleisio ar reoliadau ynghylch rhentu. Byddai'r datganiadau hyn yn dal yn dod o dan sancsiynau troseddol.

Barn y Pwyllgor

71. Ystyriodd y Pwyllgor y dewisiadau a gynigiwyd, gan gytuno y byddai cyflwyno angen ehangach i ddatgan buddiannau yn ychwanegu mwy o eglurder nag ar hyn o bryd, a hynny er budd ehangach y cyhoedd.

72. Teimlai'r Pwyllgor y byddai'r geiriad ar ddiwedd Rheol Sefydlog 2.7 yn well pe bai'n gliriach, a'i fod yn gyfyngedig fel y mae. Cytunodd y Pwyllgor â chynnig y Comisiynydd y dylai'r geiriad gael ei ddiwygio i ddweud 'a fyddai'n fwy na'r fantais a allai ddod i ran yr etholwyr yn gyffredinol'.

73. Trafododd y Pwyllgor brawf perthnasedd ar gyfer gwneud datganiad llafar, gan gytuno y byddai angen i'r Aelodau arddel eu disgrisiwn o ran pa bryd y byddai'n briodol gwneud datganiad. Cytunodd y Pwyllgor â chynnig y Comisiynydd y dylai'r prawf "perthnasedd" ymwneud ag a fyddai'n rhesymol i bobl eraill gredu y gallai'r buddiant ddylanwadu ar gyfraniad yr Aelod at y ddadl neu'r drafodaeth.

Mae'r Pwyllgor yn argymhell i'r Pwyllgor Busnes y dylai Rheol Sefydlog 2.7 gael ei ddiwygio i adlewyrchu gofyniad bod rhaid datgan unrhyw fantais ariannol uniongyrchol "a fyddai'n fwy na'r fantais a allai ddod i ran yr etholwyr yn gyffredinol"

Mae'r Pwyllgor yn argymhell i'r Pwyllgor Busnes y dylai darpariaeth newydd gael ei wneud yn y Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau wneud datganiad llafar ynglŷn ag unrhyw fuddiant perthnasol sydd gan yr Aelod neu aelod o deulu'r Aelod neu y maen nhw'n disgwyl ei gael mewn unrhyw fater sy'n codi yn nhafodion y Cynulliad. Mae'r Pwyllgor yn argymhell yn gryf y dylai hyn sefyll ar wahân i'r gofynion o dan Reol Sefydlog 2.6 a 2.7 ac na ddylai felly fod yn agored i sancsiynau troseddol.

Os bydd y Pwyllgor Busnes yn cytuno â'r argymhellion hyn, bydd angen i'r canllawiau ar gofrestru buddiannau gael eu diweddarau i ddangos bod y prawf perthnasedd ynglŷn â gwneud datganiadau llafar o dan amgylchiadau o'r fath yn ymwneud ag a fyddai'n rhesymol i bobl eraill gredu y gallai'r buddiant ddylanwadu ar gyfraniad yr Aelod at y ddadl neu'r drafodaeth. Bydd angen diweddarau'r Cod Ymddygiad hefyd er mwyn adlewyrchu'r gofyniad bod rhaid gwneud datganiadau llafar.

5. Hysbysu tramgwyddau o dan Reol Sefydlog 2

74. Mae adran 36(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn drosedd i Aelod gymryd unrhyw ran mewn trafodion heb fod wedi cofrestru'r buddiannau o dan Reol Sefydlog 2, a hynny o fewn yr amser rhagnodedig.¹⁶ Canlyniad y ddarpariaeth hon yw bod gohiriad drwy amryfusedd a phenderfyniad bwriadol i beidio â chofrestru yn ysgogi'r un ymateb, ac mae'r ddau yn agored i achos troseddol.

75. Mae'r Comisiynydd yn awgrymu yn ei bapur y gallai unrhyw ofyniad i swyddogion Comisiwn y Cynulliad roi gwybod i'r awdurdodau perthnasol (sef y DPP fel arfer) achosi tyndra rhwng swyddogion ac Aelodau o ran rhoi gwybod am achosion dibwys. Ar ben hynny, mae'r Comisiynydd yn codi pryderon y gallai swyddogion arfer disgrisiwn anysgrifenedig drwy beidio â rhoi gwybod am dramgwyddau, a allai fod yn faich trwm ac annheg.

76. Awgrymodd y Comisiynydd y byddai'n fuddiol ychwanegu hidl ychwanegol at y system ar gyfer ymdrin â Rheol Sefydlog 2. Mae'n awgrymu y dylai tramgwyddau yn erbyn Rheol Sefydlog 2 gael eu cyfeirio at berson annibynnol, a fyddai'n penderfynu a ddylai'r mater gael ei gyfeirio at y DPP. Mae'n dadlau mai mantais y dull hwn fyddai codi'r baich oddi ar y swyddogion, gan y byddai pob tramgwydd yn cael ei gyfeirio at y person annibynnol. Ar ben hynny, byddai'r person annibynnol hwn yn fesur diogelwch o ran budd y cyhoedd.

77. Awgrymodd y Comisiynydd fod hon yn swyddogaeth a allai gael ei chyflawni gan y Comisiynydd Safonau, gan ei bod yn rôl statudol annibynnol, ac y byddai'r Comisiynydd Safonau mewn sefyllfa i benderfynu a ddylai'r tramgwydd:

- gael ei gyfeirio at y DPP;
- fod yn destun achos o dan y Cod Ymddygiad; neu
- gael ei drafod yn anffurfiol.

78. Ystyriodd y Pwyllgor y cynnig gan gytuno ei fod yn ddull synhwyrol, a fyddai'n dod â chyfrannedd i'r system. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Comisiynydd Safonau a swyddogion perthnasol o'r

¹⁶ www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/section/36

Cynulliad weithio gyda swyddfa'r DPP i weld pa mor ddichonadwy yw'r awgrym.

